**Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 03-03(2)**

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad ac Argymhellion y Pwyllgor Archwilio - "Rheoli Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru " - yn dilyn cyflwyno ei adroddiad ar 28 Awst 2003**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddiolchgar am yr adroddiad ac mae'n croesawu'r canfyddiadau. Ar ôl ystyried cyngor Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, rydym yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r wyth argymhelliad yn yr adroddiad.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a bydd y Cyngor Cenedlaethol yn mynd i'r afael â'r rhain trwy gydweithio â sefydliadau addysg bellach. Bydd y Cyngor Cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth i'r egwyddorion sylfaenol wrth ddatblygu ei System Cynllunio a Chyllido Genedlaethol ac wrth sefydlu'r rhwydwaith darparwyr ehangach.

Bydd y Cyngor Cenedlaethol yn dosbarthu'r adroddiad i bob sefydliad. Gofynnir i sefydliadau ddarparu ymateb ffurfiol i'r Cyngor gan ddisgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

**i) o ran bodloni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, dylai'r sefydliadau, gyda chymorth y Cyngor, fynd i'r afael â'r gwaith angenrheidiol a flaenoriaethwyd a ddylai fod wedi ei gyflawni eisoes, a dylent wneud hyn fel mater o frys. Rydym hefyd yn argymell bod y Cyngor yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn Rhagfyr 2003 ar yr hyn a gyflawnwyd tuag at fynd i'r afael â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd;**

Cytuno. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn flaenoriaeth bod sefydliadau yn bodloni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Wrth ddyrannu £11m o adnoddau cyfalaf i sefydliadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2003/04, nododd y Cyngor y dylid rhoi blaenoriaeth, wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth hon, i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, yn bennaf mewn perthynas â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae'r Cyngor yn monitro gwariant arfaethedig sefydliadau ac mae hefyd wedi dosbarthu holiadur i'r sector er mwyn gweld pa gamau sy'n cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Fel un o amodau'r cyllid, gofynnir i bob sefydliad baratoi Datganiadau

Anabledd, gan nodi'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae eu sefydliadau yn eu cynnig i bobl ag anableddau. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r rhain gael eu cyflwyno ym mis Hydref 2003.

Yn fwy cyffredinol, mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2003-2006 yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i fyfyrwyr sydd ag anghenion arbennig. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy neilltuo cyllid ategol ar gyfer myfyrwyr sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu. Un o amcanion eraill y Cynllun yw sicrhau bod modd i bobl ag anableddau fynd i leoliadau dysgu. Mae'r gofynion hyn wedi'u hadlewyrchu yn y System Cynllunio a Chyllido Genedlaethol. Bydd un o ffynonellau cyllid y system arfaethedig, Buddsoddiad Rhwydwaith Dysgu, yn cefnogi buddsoddiad y Cyngor yn y gwaith strategol o ddatblygu a gwella'r rhwydwaith, yr offer a'r cyfleusterau ar gyfer dysgu.

Bydd y Cyngor yn adrodd i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2003 ar y gwaith y mae sefydliadau yn ei wneud i fodloni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

**ii) yng nghyd-destun ei adolygiad o gynllunio a gwariant, bod y Cyngor yn dyrannu o leiaf cyfran o'i gyllid ar gyfer ystadau yn ôl anghenion a nodwyd mewn perthynas â sefydliadau unigol;**

Cytuno. Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad (i) bydd un o ffynonellau cyllid y System Gyllido Genedlaethol arfaethedig yn cefnogi buddsoddiad strategol gan y Cyngor. Bwriedir i'r system gyllido newydd gael ei chyflwyno ym mis Awst 2004 a bydd ar waith erbyn Awst 2005. Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn pennu amodau wrth roi cyllid ac mae'n monitro cynnydd gyda llygad barcud er mwyn gwneud yn siwr bod blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni a bod sefydliadau yn buddsoddi yn y gwaith o wella eu hystadau Ym mis Tachwedd, bydd y Cyngor yn ystyried cynigion i ddelio â'r 30% o'r ystâd addysg bellach sydd mewn cyflwr gwael neu sydd angen gwaith atgyweirio neu adnewyddu mawr, fel rhan o adolygiad mwy cyffredinol o faterion ystadau o fewn y rhwydwaith darparwyr sy'n datblygu. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng y cyllid sylfaenol a ddarperir i bob sefydliad er mwyn gwneud y gwaith cynnal a chadw arferol, ar y naill law, a chyllid wedi'i dargedu i ddibenion anghenion penodol sefydliadau, ar y llaw arall.

**iii) bod y Cyngor yn cyfleu'r pwys y mae'n ei roi ar faterion yn ymwneud ag ystadau trwy ddatblygu a chyhoeddi ei flaenoriaethau ar gyfer gwella'r ystâd;**

Cytuno. Ym mis Tachwedd 2003, bydd y Cyngor yn cyhoeddi datganiad o'i bolisïau a'i flaenoriaethau, a fydd yn rhoi ystyriaeth i'r materon a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Archwilio. Bydd y datganiad yn nodi'r hyn fydd yn cael blaenoriaeth wrth fuddsoddi yn yr ystâd. Rhagwelir mai dyma fydd y blaenoriaethau:

a. sicrhau bod y gofynion statudol yn cael eu bodloni, gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd;

b. lleihau'r gwaith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei wneud;
c. gwella'r defnydd a wneir o'r lle sydd ar gael; a
d. gwella ansawdd adeiladau.

**iv) bod y sefydliadau yn adolygu eu strategaethau ystadau yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiweddar, gan ystyried y sylwadau a wnaed gan yr ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, a'r blaenoriaethau a gyhoeddwyd gan y Cyngor;**

Cytuno. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ei bod yn briodol i sefydliadau adolygu eu strategaethau yn flynyddol a'u diweddaru, lle y bo'n briodol. Bydd yr angen i ddiweddaru strategaethau o'r fath yn dibynnu i ba raddau y mae amgylchiadau wedi newid ac a yw'r newidiadau yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau hynny. Yn Llawlyfr Rheoli Ystadau'r Cyngor, pwysleisir wrth Gyrff Llywodraethu colegau pa mor bwysig yw cynnal strategaethau ystadau sy'n berthnasol ac yn gyfoes, a phwysigrwydd cydnabod newidiadau a ffactorau allweddol sy'n effeithio ar anghenion ystadau. Dosbarthwyd adroddiadau gwerthuso ymgynghorydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar strategaethau ystadau i golegau unigol ym mis Ebrill 2003 ac mae swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau er mwyn mynd i'r afael â chynnwys adroddiadau'r ymgynghorydd.

Ar hyn o bryd, mae llawer o sefydliadau yn disgwyl clywed beth fydd casgliadau adolygiadau a mentrau sydd ar y gweill cyn gorffen a diweddaru eu strategaethau ystadau. Bydd gweithredu'r adolygiad o'r sector tir a datblygu'r rhwydwaith darparwyr ehangach, yn enwedig, yn effeithio'n sylweddol ar y seilwaith a fydd ei angen er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant angenrheidiol. Pan ddaw canlyniadau'r datblygiadau hyn yn amlwg yn gynnar yn 2004, bydd gofyn i'r sefydliadau perthnasol ddiweddaru eu strategaethau ystadau er mwyn adlewyrchu'r rhain a chyflwyno copïau i'r Cyngor i'w hasesu. Disgwylir i hyn ddod i ben yn ystod haf 2004.

**v) gan ddefnyddio prosiect ystadegau Rheoli Ystadau Addysg Bellach yn sail, dylai'r Cyngor osod targedau ar gyfer gwelliannau parhaus i'r ystâd, a chyhoeddi'r cynnydd a wnaed;**

Cytuno. Mae'r Cyngor wedi chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu prosiect Ystadegau Rheoli Ystadau Addysg Bellach y DU (FEEMS). Cymerodd 118 o sefydliadau addysg bellach ar draws y DU, gan gynnwys holl golegau Cymru, ran yn y cam cyntaf ac mae adroddiad yr ymgynghorwyr ar hyn yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Bydd pob coleg yn cael copi o'r adroddiad terfynol ac felly bydd modd iddynt feincnodi gan ddefnyddio cyfres gynhwysfawr o gymarebau a mesurau sy'n berthnasol i ystadau. Mae cronfa ddata bwrpasol fawr wedi'i chreu sy'n cynnwys ystod o offer dadansoddi ac adrodd.

O fis Tachwedd 2003, fel rhan o adolygiad ehangach o faterion sy'n ymwneud ag ystadau o fewn y rhwydwaith o ddarparwyr sy'n datblygu, bydd y Cyngor, ar ôl trafod â cholegau a

Fforwm, yn cytuno ar dargedau ac yn eu cyhoeddi er mwyn cyflwyno gwelliannau. Bydd y targedau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol a bennwyd gan y Cyngor a'r adnoddau sydd ar gael.

vi. **dylai'r Cyngor adolygu'r adnoddau a ddarperir ar gyfer ei Adran Eiddo er mwyn sicrhau y gall ymdopi â'r gwaith wrth law;**

Cytuno. Yng nghyd-destun ei brosiect datblygu sefydliadol, mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu Adran Eiddo penodol ar wahân i un Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bydd adnoddau priodol ar ei chyfer fel ei bod yn gallu monitro a chynghori sefydliadau addysg bellach o ran gwella a datblygu eu hystadau.

**vii) dylai sefydliadau ystyried cryfhau adnoddau eu hystadau naill ai drwy benodiad mewnol, prynu arbenigedd neu gydweithio â sefydliadau eraill;**

Cytuno. Mae'n beth cyffredin i sefydliadau AB ategu unrhyw adnodd mewnol gan ddefnyddio arbenigedd allanol priodol yn enwedig er mwyn mynd i'r afael â phrosiectau a datblygiadau sylweddol sy'n ymwneud ag ystadau. Defnyddir Syrfëwyr Meintiau, penseiri, ymgynghorwyr dylunio a rheolwyr prosiect yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod prosiectau yn cael eu cynllunio, eu rheoli a'u cwblhau yn effeithiol. Wrth ddosbarthu adroddiad y Pwyllgor Archwilio i sefydliadau, bydd y Cyngor yn tynnu sylw llywodraethwyr ac uwch reolwyr at yr angen i ddod o hyd i arbenigwyr priodol.

Mae fersiwn cyfredol y Llawlyfr Rheoli Ystadau, a gyhoeddwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2001, yn cynnwys pennod sy'n canolbwyntio ar yr angen i gael cyngor proffesiynol allanol ar faterion sy'n ymwneud ag eiddo, os nad oes gan rywun mewnol y wybodaeth arbenigol. Mae grwp o reolwyr ystadau AB yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'n weithgar o ran rannu arferion da a datblygu ffyrdd newydd o weithio. Bydd swyddogion y Cyngor, ar y cyd â Fforwm, yn parhau i ddatblygu rôl y grwp hwn er mwyn cael gwell cydweithrediad a chyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol ym maes rheoli eiddo.

**viii) bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dweud wrthym beth sydd wedi digwydd mewn ymateb i'n hargymhelliad blaenorol a oedd yn ymwneud â'r model presennol ar gyfer y sector addysg, a ph'un a yw'r Cynulliad yn bwriadu gweithredu ymhellach yn y dyfodol;**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i adolygu'r model sefydliadol ar gyfer y sector addysg ôl-16 o ran y cysylltiad rhyngddo â sefydliadau Addysg Bellach a bydd yn ymgynghori â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gynigion o'r fath, fel bo angen. Mae'r Pwyllgor Archwilio eisoes wedi cael gwybod yn ymateb y Cabinet i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 04-

02 (Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru) bod sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn cael eu sefydlu dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac y byddai newid eu sail statudol yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Dyma'r sefyllfa o hyd**.** Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon bod y model presennol yn briodol ac yn ffafriol o ran cyflawni agenda Llywodraeth y Cynulliad, ac nad oes unrhyw gynlluniau i hybu newid.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn fodlon bod y pwerau sydd gan y Cyngor mewn perthynas â sefydliadau Addysg Bellach yn ddigonol i alluogi'r Cyngor Cenedlaethol i gyflawni ei rôl o ran y sefydliadau hyn. Wrth ddod i'r casgliad hwn, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r Datganiadau Gwarantu y mae'r Cyngor wedi bod yn eu paratoi bob blwyddyn, a'r canlyniadau cadarnhaol ar ôl i'r Cyngor ymyrryd yn unol â'i rôl strategol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi yn arbennig Ddatganiad Gwarantu 2002-03 y Cyngor Cenedlaethol sy'n nodi bod y systemau llywodraethu mewn sefydliadau Addysg Bellach yn ddigonol, ar y cyfan, ac yn gweithio'n foddhaol.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i adolygu'r materion hyn, a phan gwelir bod angen gwelliannau technegol bydd yn cadw mewn cof bod angen gwneud y gwelliannau hyn cyn gynted ag y bydd cyfle deddfwriaethol yn codi.